# Maniffesto Menter Gymdeithasol i Gymru

## Catalydd ar gyfer Twf Cynaliadwy a Chymunedau Cynhwysol

cwmpas UnLtd CYD Cymru DTA Wales socialfirmswales enterprise, employment, empowerment WCVA CGGC



# CYNNWYS


**Cyflwyniad** **3**

Ein Gofyniadau Allweddol 5

**Pam mae Mentrau Cymdeithasol yn ased hanfodol ar draws sectorau gwahanol** **6**

Yr Economi 7

Swyddi a Sgiliau 14

Iechyd a Gofal Cymdeithasol 22

Yr Amgylchedd, yr Hinsawdd a Natur 27

Addysg 31

Y Gymraeg 35

Diwylliant 39

Cymunedau a Chynhwysiant 45

**Sut i wneud Cymru'n genedl o fentrau cymdeithasol** **49**

**Gweithio gyda ni** **58**

# Cyflwyniad

## Mae mentrau cymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol yng nghymunedau Cymru ac economi Cymru

Maent yn darparu gwasanaethau hanfodol i wella lles, yn defnyddio technolegau gwyrdd arloesol i sefydlu cynaliadwyedd, yn creu swyddi cynhwysol a hygyrch i bobl y tu allan i'r farchnad lafur, yn creu cyfoeth lleol sy'n cael ei ailddosbarthu'n ôl i gymunedau, a llawer mwy.

**Maent yn meithrin ysbryd entrepreneuriaeth i greu gwerth cymdeithasol a gwneud newidiadau sy'n mynd i'r afael â gwraidd problemau cymdeithasol.**

Rydym yn angerddol am botensial y model hwn – sef sylfaen driphlyg pobl, planed ac elw – i greu mwy fyth o effaith yng Nghymru.

Rydym eisiau i fentrau cymdeithasol fod y model busnes o ddewis, ac i'n gwlad fod y lle gorau yn y byd i gychwyn a thyfu mentrau cymdeithasol.

Fel y Grŵp Rhanddeiliaid Mentrau Cymdeithasol, rydym ni – sef Cwmpas, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, UnLtd, a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) – yn dod â sefydliadau ynghyd sy'n darparu cymorth arbenigol i fentrau cymdeithasol.

Rydym yn gweithio gyda mentrau cymdeithasol yn feunyddiol ac yn eu cefnogi i gyflawni eu gwaith rhagorol.

Gyda'n gilydd, rydym yn cyflawni Gweledigaeth a Chynllun Gweithredu Trawsnewid Cymru Trwy Fentrau Cymdeithasol.

Mae ein hadroddiad mapio 2025 gan Busnes Cymdeithasol Cymru yn disgrifio cyflwr y sector.

Amcangyfrifwn fod o leiaf 3,113 o fusnesau yn y sector erbyn hyn, sef cynnydd o 13% ers 2022. Amcangyfrifir bod y sector yn cynhyrchu gwerth rhwng £3.5bn a £5.7bn o drosiant bob blwyddyn a'i fod yn cyflogi rhwng 57,000 a 68,000 o bobl.



Yn y maniffesto hwn, amlinellwn pam y dylai mentrau cymdeithasol gael eu sefydlu ym maniffesto pob un o'r pleidiau gwleidyddol, a nodwn ein blaenoriaethau o ran sut y gall Llywodraeth nesaf Cymru gefnogi'r sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru.

**Byddwn yn gosod yr uchelgais o wneud Cymru'n genedl o fentrau cymdeithasol.**

Bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn allweddol o ran sicrhau y gall y sector arloesol, gwydn a chyffrous hwn barhau i gyflawni a chyfrannu at adeiladu economi gynaliadwy a chynhwysol yng Nghymru.

# Ein Gofyniadau Allweddol

## CYMORTH ARBENIGOL

## DATBLYGU'R FARCHNAD YN RHAGWEITHIOL

## OPSIYNAU CYLLIDO HYGYRCH A PHRIODOL

## ADEILADU CYFOETH CYMUNEDOL

## GRYMUSO PERCHNOGAETH GYMUNEDOL

## ADDYSG ENTREPRENEURIAETH GYMDEITHASOL

# Pam mae Mentrau Cymdeithasol yn ased hanfodol ar draws sectorau gwahanol

**Mae mentrau cymdeithasol yn elfen hanfodol o wireddu'r weledigaeth o Gymru ffyniannus.**

Mae'r sector eisoes yn gwneud gwaith ysbrydoledig ac effeithiol ac mae'n angerddol am gyflawni rhagor.

Gellir cymhwyso model y sylfaen driphlyg ar draws sectorau gwahanol i greu mwy fyth o werth economaidd a chymdeithasol mewn ffordd gynaliadwy.

Bydd tyfu'r sector yn allweddol i osod lles pobl, y blaned a chenedlaethau'r dyfodol wrth wraidd economi wedi'i hailgydbwyso sy'n arwain y byd.

Mae gan Gymru'r holl elfennau allweddol sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth hon a dangos y ffordd gydag economi sy'n gweithio'n wahanol, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer ein cyfoeth economaidd, ein cymunedau, a'r blaned.

Yn y ddogfen hon, disgrifiwn sut a pham mae mentrau cymdeithasol yn ased amhrisiadwy ar gyfer creu'r Gymru a garem ei gweld.



# Yr Economi

**Mae angen i Gymru ailgydbwyso a datblygu ei heconomi er mwyn cyflawni ffyniant cynaliadwy, a bydd cefnogi busnesau cymdeithasol yn hanfodol i hyn.**

Bydd y busnesau hyn yn adeiladu'r sylfeini ar gyfer twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol ledled cymunedau Cymru

Mae ailgydbwyso'r economi yn golygu sicrhau bod pŵer economaidd yn cael ei gadw'n lleol, gan greu economi fwy cynhwysol a chynhyrchiol sy'n adeiladu ar gryfderau ac asedau lleol ac yn hyrwyddo cyfoeth cymunedol.

Heb hyn, ni fyddwn yn datrys y problemau strwythurol y mae angen i ni eu datrys – megis datblygu anghyfartal, tlodi parhaus, a'r dinistr o golli swyddi oherwydd penderfyniadau a wneir mewn mannau eraill.

# Yr Economi

Bydd cryfhau'r economi gymdeithasol a thyfu'r modelau busnes gwahanol o fewn yr economi honno'n hanfodol i feithrin twf cynhwysol sy'n fuddiol i bawb yng Nghymru.

Bydd grymuso datblygiad cadwyn gyflenwi gref o fusnesau Cymreig gyda sylfaen driphlyg a pherchnogaeth ddemocrataidd wedi'u hymgorffori yn eu modelau yn creu economi fwy cadarn a gwydn.

Ceir prawf bod y modelau hyn yn asedau hanfodol wrth adeiladu cyfoeth cymunedol, gan angori busnesau yn eu cymunedau, creu ac ailddosbarthu cyfoeth yn lleol, blaenoriaethu lles a gwerth cymdeithasol, a chreu canlyniadau amgylcheddol gwell.

Y gwahaniaeth allweddol rhwng busnesau sector preifat traddodiadol a busnesau cymdeithasol yw bod unrhyw warged gan yr olaf yn cael ei ailfuddsoddi'n bennaf yn y busnes neu'r gymuned, yn hytrach na chael ei yrru gan yr angen i wneud yr elw mwyaf i gyfranddalwyr a pherchnogion.

Mae'r data o adroddiad mapio 2025 yn fras gyson â blynyddoedd blaenorol.




Mae cyfran y busnesau sy'n ailfuddsoddi gwarged er mwyn tyfu neu gynnal y busnes wedi dychwelyd i lefelau 2020, sef 93% o fusnesau, o gymharu â 90% yn 2022 a 93% yn 2020.

Ar yr un pryd, ceir cysondeb yn nifer y busnesau sy'n defnyddio eu gwarged er budd cymunedol, cymdeithasol, amgylcheddol neu elusennol.

Yn 2025, adroddwyd hyn gan bron i hanner y busnesau (47%), sef yr un canran â 2022 ac i fyny o 23% yn 2020.

Ceir llawer o enghreifftiau o fusnesau cymdeithasol ysbrydoledig yng Nghymru sydd wedi defnyddio arloesedd ac entrepreneuriaeth i dyfu, gan greu swyddi a gwerth economaidd yng nghymunedau Cymru:




# Dulas LTD

**Sefydlwyd:**
**1982**

**Sector:**
**Egni Adnewyddadwy**

Sefydlwyd Dulas ym 1982 o fewn Canolfan y Dechnoleg Amgen, ac mae'r cwmni wedi bod ar flaen y gad yn y diwydiant ynni adnewyddadwy ers bron i bedwar degawd, gan greu arloesiadau sy'n parhau i arwain y maes heddiw.

Mae'r cwmni cydweithredol hwn, sydd wedi'i leoli ym Machynlleth, yn eiddo i'r gweithwyr, ac mae blaenoriaethu pobl a'r blaned wedi'i wreiddio yn ei fodel busnes.

Mae'r cwmni wedi gweld twf rhyfeddol, ac yn 2024 enillodd Wobr Allforiwr Busnes Bach a Chanolig y Flwyddyn yng Ngwobrau Busnes Cymru.

Mae'n allforio oergelloedd brechlynnau sy'n cael eu pweru gan ynni solar i dros 80 o wledydd ledled y byd, gan wneud gwahaniaeth enfawr i gymunedau sy'n aml yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at frechlynnau sy'n achub bywydau

Dyma enghraifft wych o fusnes cymdeithasol arbenigol ac arloesol sy'n creu cyfoeth a swyddi o ansawdd uchel yng Nghymru mewn ffordd gydweithredol sy'n canolbwyntio ar dwf.



**Mae hyn yn dangos beth sy'n bosibl pan fydd pobl yn dod at ei gilydd ac yn adnabod cyfleoedd ar gyfer busnesau arloesol a gaiff eu gyrru gan genhadaeth.**

Bydd cefnogi'r genhedlaeth nesaf o'r busnesau hyn yng Nghymru yn allweddol i wireddu gweledigaeth uchelgeisiol o economi gynhyrchiol, gynhwysol, sy'n arwain y byd, ac mae angen i ni fod yn rhagweithiol wrth hwyluso eu syniadaeth a'u twf.

Yn ogystal, mae mentrau cymdeithasol wedi'u cysylltu'n gryf ag agendâu polisi allweddol eraill ac yn gweithio mewn cytgord â'r rhain, gan gynnwys egwyddorion yr Economi Sylfaenol a'r Economi Gylchol.

Mae cymaint o'n mentrau cymdeithasol yn helpu i gyflawni'r strategaethau allweddol hyn, gan ddarparu gwasanaethau lleol hanfodol a datblygu datrysiadau arloesol ar gyfer lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac adfywio.




# TrydaNi

**Sefydlwyd:**
**1990s**

**Sector:**
**Modurol**

Mae TrydaNi yn Gymdeithas Budd Cymunedol nid er elw gyda chenhadaeth i gefnogi cymunedau lleol i greu a rhedeg clybiau ceir, ac i hwyluso symudiad i ffwrdd oddi wrth fodelau traddodiadol o berchnogaeth ar geir tuag at ddyfodol o drafnidiaeth lanach.

Mae'r clybiau ceir i'w cael ledled Cymru, o Fethesda i Gwm-gors, ac mae'r gymdeithas yn gweithio gyda phartneriaid newydd i sefydlu clybiau – gan gysylltu pobl â'u cymunedau mewn ffordd gynaliadwy.

Gweledigaeth hirdymor TrydaNi yw i'r cerbydau trydan yn ei rhwydwaith gael eu pweru gan ynni adnewyddadwy cymunedol a gynhyrchir yn lleol, gan gadw costau'n isel a hybu annibyniaeth ynni Cymru.

Fel Cymdeithas Budd Cymunedol, mae perchnogaeth gymunedol yn allweddol i weledigaeth hirdymor TrydaNi o ehangu ei rhwydwaith ymhellach a grymuso aelodau i gael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu clwb lleol a'r rhwydwaith ehangach.

# Cyflog Byw

**Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn dangos bod mentrau cymdeithasol yn creu swyddi o ansawdd uchel, ac mae cyfran sylweddol uwch ohonynt yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol na'r sector preifat ehangach.**

Canfu ymchwil gan Social Enterprise UK fod 84% o fentrau cymdeithasol yn adrodd eu bod yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol – sef 8 o bob 10 menter gymdeithasol o gymharu ag amcangyfrif o 1 o bob 9 cyflogwr ar draws yr economi ehangach.

Cefnogir hyn gan adroddiad mapio 2025 Busnes Cymdeithasol Cymru, sy'n awgrymu bod 84% o fusnesau cymdeithasol yng Nghymru sydd â gweithwyr yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'r holl staff (sef £12.21 ym mis Ebrill 2025). Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 66% yn 2022 (£9.50).




# Le Pub

**Sefydlwyd: 1992**

**Sector: Cerddoriaeth fyw**

*Paentio gan Carl Bevan*

Mae Le Pub wedi bod wrth wraidd sin gerddoriaeth a diwylliant Casnewydd ers 1992, gan weithredu fel bar, bwyty a chlwb nos.

Ganwyd Le Public Space o'r llwyddiant hwnnw, sef lleoliad annibynnol mwyaf y ddinas ar gyfer y celfyddydau creadigol. Ar y wefan, mae'n datgan, "Rydym yn eiddo i'r gymuned, nid er elw. Mae hynny'n golygu y bydd popeth a wnawn bob amser yn ymwneud â thyfu'n fwy ac yn well".

Mae eu hymrwymiad i greu gwerth cymdeithasol yn amlwg yn y ffaith mai dyma un o ddim ond dau leoliad cerddoriaeth fyw lawr gwlad ledled y DU sydd wedi'u hachredu fel cyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol.

Ar draws sectorau gwahanol, gan amrywio o ran ffurfiau a meintiau, mae busnesau cymdeithasol yn dangos yr ysbryd entrepreneuraidd i ateb heriau Cymru ac adeiladu economi gryfach, decach a mwy cynaliadwy.

Dylai cefnogi'r mentrau hyn a mynd ati'n rhagweithiol i feithrin mentrau newydd fod yn rhan ganolog o agenda economaidd Llywodraeth Cymru.

# Swyddi a Sgiliau

**Er mwyn i gymunedau Cymru ffynnu, a rhoi terfyn o'r diwedd ar lefelau annerbyniol o dlodi yn y wlad hon, mae arnom angen swyddi cynhwysol o ansawdd da.**

Un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu Cymru yw'r lefelau uchel o bobl sydd wedi'u cloi allan o'r farchnad lafur am amrywiaeth o resymau gwahanol. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dros ddatblygiad economaidd, cyflogadwyedd a sgiliau, ac mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo'n ddiweddar i ddatganoli cymorth cyflogaeth.

Mae angen i ni sicrhau bod cyflogaeth o ansawdd uchel ar gael i bawb, er budd yr unigolion yr effeithir arnynt gan ddiweithdra, a'n cymunedau, a'n heconomi gyfan.

# Swyddi a Sgiliau

Mae mentrau cymdeithasol yn darparu datrysiad unigryw ar gyfer mynd i'r afael â diweithdra ymhlith y cymunedau mwyaf ymylol ledled Cymru.

Gan greu datrysiadau lleol ac ymateb i anghenion cymunedol, mae ein mentrau cymdeithasol yn darparu cyfleoedd hanfodol ar gyfer profiad gwaith, paratoi ar gyfer gwaith, hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth, sy'n canolbwyntio'n unigryw ar yr unigolyn, yn feithringar ac yn addasadwy, fel nad oes unrhyw un yn cael ei eithrio.

Mae data mapio 2025 yn awgrymu bod busnesau cymdeithasol yn tueddu i ddenu eu gweithwyr o'r ardal leol, gyda 80% o weithlu'r busnesau a ymatebodd yn byw o fewn 10 milltir i'w gweithle, sy'n gynnydd o 78% yn 2022 a 57% yn 2020.

Mae'r ethos hwn yn gwneud mentrau cymdeithasol yn gyfrannwr pwysig dros ben at ddatblygiad a thwf personol unigolion sy'n wynebu rhwystrau cymhleth yn aml rhag cymryd rhan mewn cyflogaeth brif ffrwd, gan eu galluogi mewn llawer o achosion i fagu'r hyder a'r sgiliau i symud ymlaen i'r cyfleoedd prif ffrwd.




Yn anffodus, Cymru sydd â'r bwlch cyflogaeth anabledd mwyaf yn y DU, sef 30.9% (Os yw'r Gefnogaeth yn Gywir, Amdani! Mynd i'r afael â'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd, adroddiad y Senedd, 2025).

Er mwyn creu'r swyddi cynhwysol a chynaliadwy sy'n ddatrysiad i'r argyfwng hwn, mae arnom angen cyflenwad cryf o fentrau a chwmnïau cymdeithasol yn cael eu sefydlu a'u datblygu.

Mae Mentrau Cymdeithasol eisoes yn arwain y ffordd o ran creu cyfleoedd cynhwysol i bobl ymuno â'r farchnad lafur.



# ELITE

**Sefydlwyd:**
**1994**

**Sector:**
**Cyflogaeth**

Mae Elite Supported Employment Agency Ltd yng nghymoedd De Cymru wedi bod yn cynorthwyo pobl ag anableddau i gael a chynnal cyfleoedd cyflogaeth â thâl, o fewn y gymuned, â chymorth personol, ers 1994.

Mae'r cwmni'n dibynnu ar gydweithio â busnesau lleol i ddarparu cyfleoedd galwedigaethol, ar ôl cydnabod yr angen i sefydlu eu busnes cynaliadwy eu hunain, gyda'r nod o greu cyflogaeth â thâl neu gyfleoedd gwaith i ymgeiswyr – a lansiwyd ELITE Paper Solutions yn 2015.

Mae natur y busnes yn sicrhau bod swydd ar gael a fydd yn diwallu pob angen, ni waeth beth yw anabledd yr unigolyn, gan ei wneud yn weithle cwbl gynhwysol. Mae ganddynt staff o oedrannau a galluoedd gwahanol ac mae cyfle cyfartal yn ffocws moesegol cryf.

Wrth ddefnyddio eu gwasanaethau, maent yn galluogi sefydliadau i fodloni eu cyfrifoldebau amgylcheddol, arfer cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, a bod mor gost-effeithiol â phosibl, mewn perthynas â gwaredu dogfennau gwastraff cyfrinachol.

Mae ELITE wedi darparu cyfleoedd i filoedd o bobl anabl – gan roi hyfforddiant a chymorth, cael pobl i mewn i gyflogaeth a helpu pobl i aros mewn gwaith. Maent wedi tyfu i gyflogi 125 o bobl ac mae ganddynt drosiant o ychydig o dan £4 miliwn, gan ennill contractau gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Wrth ddefnyddio eu gwasanaethau, maent yn galluogi sefydliadau i fodloni eu cyfrifoldebau amgylcheddol, arfer cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, a bod mor gost-effeithiol â phosibl, mewn perthynas â gwaredu dogfennau gwastraff cyfrinachol.

Mae ELITE wedi darparu cyfleoedd i filoedd o bobl anabl – gan roi hyfforddiant a chymorth, cael pobl i mewn i gyflogaeth a helpu pobl i aros mewn gwaith. Maent wedi tyfu i gyflogi 125 o bobl ac mae ganddynt drosiant o ychydig o dan £4 miliwn, gan ennill contractau gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat.



Mae llawer o bobl wedi'u cloi allan o'r farchnad lafur neu'n cael trafferth dod o hyd i waith am resymau heblaw anabledd.

Canfu ein hymarfer mapio yn 2025 fod 22% o gyflogwyr mewn mentrau cymdeithasol a oedd wedi cyflogi gweithwyr newydd yn ystod y 12 mis blaenorol wedi nodi bod y rhain yn cynnwys unigolion a oedd yn ddi-waith yn union cyn dechrau yn y swydd.

Mae hyn yn atgyfnerthu rôl y sector mewn darparu cyfleoedd cyflogaeth i unigolion sydd ymhellach i ffwrdd o'r farchnad lafur.

Mae mentrau cymdeithasol yn hyblyg, ac yn meithrin a blaenoriaethu pobl a lles.



## Community Impact Initiative

## Sefydlwyd: 2016

## Sector: Adeiladu

Mae Community Impact Initiative yn ymgymryd â phrosiectau adfywio cymunedol arloesol gyda'r nod o gyflawni newid economaidd-gymdeithasol cadarnhaol ledled De Cymru.

Maent yn cefnogi pobl o gefndiroedd difreintiedig i wella eu hiechyd a'u lles, meithrin eu hyder a'u hunan-barch, dysgu sgiliau newydd, ennill cymwysterau, a gwneud gwelliannau cadarnhaol i'w bywydau wrth adnewyddu eiddo gwag mewn cymunedau lleol.

Maent yn adfywio ac yn bywiogi mannau cymunedol, gan ddychwelyd eiddo gwag i'r farchnad dai, gwella safonau byw, a darparu datrysiad fforddiadwy ac effeithiol i broblemau tai ac eiddo gwag yng Nghymru.

Ymunodd Tim â phrosiect Adeiladu Gwydnwch mewn Cymunedau yng Nglyn-nedd. Roedd ganddo brofiad blaenorol mewn crefftau'r cartref ac yn barod i ddilyn gyrfa mewn cynnal a chadw eiddo.

Er nad oedd erioed wedi bod mewn cyflogaeth â thâl – dim ond mewn rolau gwirfoddoli – roedd yn parhau i fod yn frwdfrydig. Teimlai Tim fod ei syndrom Asperger wedi effeithio ar ei allu i sicrhau gwaith â thâl yn y gorffennol.

Hyd yn oed cyn iddo ymuno â'r prosiect, roedd diddordeb Tim mewn crefftau'r cartref a gwella cartrefi yn glir, ac roedd yn benderfynol o ddefnyddio ei sgiliau mewn lleoliad proffesiynol. Er ei fod yn byw ymhell o safle'r prosiect ac yn gorfod mynd ar ddau fws bob diwrnod, roedd ymrwymiad diwyro Tim yn amlwg – ac roedd bob amser ymhlith y cyntaf i gyrraedd bob bore.

Trwy gydol y prosiect, dangosodd Tim ei benderfyniad a'i ddiwydrwydd cryf wrth gyflawni cerrig milltir arwyddocaol.

Enillodd ei dystysgrif Cymorth Cyntaf, cwblhaodd hyfforddiant Iechyd a Diogelwch, a phasiodd brawf y Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu. Erbyn tua diwedd ei gyfnod gyda'r prosiect, roedd ymdrechion Tim wedi dwyn ffrwyth, a sicrhaodd swydd fanwerthu amser llawn.

# Swyddi a Sgiliau

Mae ein hadroddiad yn 2025 yn awgrymu y gallai fod tuedd tuag at gyfran fwy o fusnesau cymdeithasol mewn ardaloedd awdurdodau lleol lle ceir mwy o amddifadedd.

Mae'r patrwm hwn yn adlewyrchu rôl busnesau cymdeithasol mewn darparu cyflogaeth a gwasanaethau mewn ardaloedd lle mae gweithgarwch economaidd prif ffrwd yn fwy cyfyngedig, a lle mae'n debygol y bydd llai o gyfleoedd yn y sector preifat.

Mae hyn hefyd yn dangos rôl y sector busnesau cymdeithasol mewn cynhyrchu gweithgarwch economaidd yn ogystal â chyfrannu at economïau lleol cynhwysol – yn enwedig mewn ardaloedd sy'n wynebu heriau economaidd-gymdeithasol.

Mae Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, sy'n aelod o'r Grŵp Rhanddeiliaid Mentrau Cymdeithasol, yn bodoli i gefnogi datblygiad Cwmnïau Cymdeithasol, sef math o fenter gymdeithasol sy'n blaenoriaethu creu cyfleoedd cyflogaeth, gwirfoddoli a hyfforddiant i bobl anabl a grwpiau difreintiedig eraill.

Mae'n fodel a gaiff ei gydnabod yn fyd-eang, ac mae Cwmnïau Cymdeithasol yn cynnig cyfle hanfodol i bobl sy'n wynebu rhwystrau lluosog a dwys rhag cyflogaeth o fewn y farchnad lafur agored.

Bellach, mae gan Gwmnïau Cymdeithasol Cymru 130 o aelodau sydd wedi ymrwymo i arferion cyflogaeth sy'n gymdeithasol gynhwysol, ac ar y cyd, maent yn darparu cannoedd o gyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli i bobl anabl.

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Dylai modelau mentrau cymdeithasol fod yn ganolog i'n gweledigaeth o wneud Cymru'n genedl iachach.**

Mae mentrau cymdeithasol yn y gymuned yn cynnig model profedig ar gyfer creu cymunedau iachach a chyflwyno dulliau ataliol, cynaliadwy, cynnar o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a lleihau pwysau ar wasanaethau cyhoeddus.

Gwella iechyd a lles yw'r amcan a ddewiswyd amlaf wrth i ni fapio'r sector, a dyma beth a nodwyd gan dros 80% o fusnesau – sef cynnydd o 75% yn 2022 ac ychydig dros hanner yn 2020 – sy'n adlewyrchu ymrwymiad parhaus y sector i gefnogi iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

Mae mentrau cymdeithasol ledled Cymru eisoes yn darparu gwasanaethau hanfodol -

- o ddulliau arloesol o ddarparu gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o fewn cymunedau, i ddod â phobl ynghyd mewn mannau cymunedol er mwyn lleihau unigedd ac unigrwydd, i wella lles wrth sefydlu gwasanaethau hamdden a lles, neu achub gwasanaethau hamdden lleol fel y gall pobl barhau i gael mynediad iddynt yn eu cymuned eu hunain.

Mae dulliau ataliol o fynd i'r afael â'r galw cynyddol am wasanaethau'r GIG yn allweddol, ac mae presgripsiynu cymdeithasol yn dangos y potensial ar gyfer hyn yng Nghymru – ond er mwyn i hyn ddigwydd, mae arnom angen cadwyn gyflenwi gref o ddarparwyr iechyd a gofal sy'n cael eu gyrru gan genhadaeth ac sy'n bodoli mewn cymunedau.



# Community Wellness CIC

## Sefydlwyd: 2021

## Sector: Iechyd

Mae Cwmni Buddiant Cymunedol Community Wellness yn darparu model unigryw o ofal cyfannol yn y gymuned i bobl agored i niwed. Mae'n darparu ystod o weithgareddau ac ymyriadau therapiwtig i grwpiau mewn mannau cymunedol diogel, gan annog cefnogaeth gan gymheiriaid, dysgu ar y cyd ac iachâd.

"Bob wythnos, mae Community Wellness yng Nghefn Mawr wedi bod yn cynorthwyo cymuned o bobl i wella eu llesiant meddyliol.

Mae llawer o'r bobl a welwn mewn argyfwng, neu wedi bod yn ddiweddar.

Caiff pobl eu hatgyfeirio atom gan eu meddygfa leol, ac maen nhw'n dweud wrthym, heb Community Wellness, byddent ar restr aros ar gyfer cymorth iechyd meddwl hanfodol. Er gwaethaf yr angen dwys hwn, rydym yn cael ein hunain unwaith eto heb y cyllid i barhau."




**Yn ogystal, rydym yn gwybod bod modelau cydweithredol a mentrau cymdeithasol dan arweiniad y gymuned yn allweddol i sector gofal cymdeithasol cadarn sy'n canolbwyntio ar bobl.**

Mae mentrau cymdeithasol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u gwreiddio mewn cymunedau ac maen nhw'n gweithredu gyda ffocws ar lesiant, gan ddarparu gwasanaethau a datrysiadau arloesol sy'n ategu ac yn ychwanegu at ddarpariaeth y sector cyhoeddus ac yn lleihau'r pwysau ar y ddarpariaeth honno.



# Cartrefi Cymru Co-operative

## Sefydlwyd: 1989

## Sector: Gofal Cymdeithasol

Mae Cwmni Cydweithredol Cartrefi Cymru yn darparu cydweithwyr medrus a pharchus i weithio yng nghartrefi pobl ac mewn ardaloedd lleol, gan hyrwyddo annibyniaeth, cynhwysiant cymdeithasol, a diogelwch.

Fel cwmni cydweithredol sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid, maent yn meithrin talentau a syniadau eu holl aelodau er mwyn gwella cymunedau i bawb. Maent yn gydweithfa fywiog gyda 1,200 o weithwyr, sy'n cefnogi 650 o unigolion, ac mae ganddynt filoedd o ffrindiau, perthnasau ac eiriolwyr.

"Mae aelodaeth yn agored i'r bobl a gefnogwn, ein gweithwyr, a chefnogwyr cymunedol.

Mae gennym strwythurau democrataidd sy'n sicrhau bod gan aelodau lais cryf a rheolaeth wirioneddol.

Anogir pob aelod i gyfrannu ac fe'u gwerthfawrogir am eu hamser, eu doniau, a'u cysylltiadau cymunedol. Rydym yn hyrwyddo hunangymorth ac annibyniaeth, i unigolion ac i'n sefydliad. Mae bod yn gwmni cydweithredol yn ein cryfhau yn yr holl agweddau hyn, ac mae cadw ein statws elusennol yn sicrhau mai ein blaenoriaeth yw'r bobl a gefnogwn."

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Wrth ailfuddsoddi elw mewn gwasanaethau a chymunedau, maent yn sicrhau gofal cynaliadwy, ymatebol, o ansawdd uchel, wedi'i addasu i anghenion unigolion a theuluoedd – gan ddarparu deilliannau gwell i'r sawl sydd angen cymorth.

Mae cyflogau ac amodau gwaith gwell i'r bobl sy'n gweithio i ddarparwyr cydweithredol a mentrau cymdeithasol o fewn y sectorau hanfodol hyn yn mynd i'r afael â'r argyfwng cadw a recriwtio mewn gofal, ac mae darparwyr yn crybwyll 'recriwtio er mwyn tyfu yn hytrach na disodli'.

Mae'r galw am y gwasanaethau hyn yn sicr o gynyddu – mae'r system bresennol mewn argyfwng, ond ar yr un pryd, mae darparwyr preifat yn cymryd elw allan o gymunedau yng Nghymru.

Mae arnom angen sector gofal cymdeithasol sydd wedi'i drawsnewid, gyda gwerthoedd mentrau cydweithredol a chymdeithasol wrth ei wraidd – a nawr yw'r amser i gamu ymlaen i adeiladu'r sefydliadau angori wedi'u gwreiddio mewn cymunedau lleol sy'n gallu arwain ar hyn.

# Yr Amgylchedd, yr Hinsawdd a Natur

**Er mwyn gwarchod natur, cyflawni targedau cynaliadwyedd a lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, mae angen i ni addasu'r ffordd y mae ein cymunedau a'n heconomïau'n gweithio.**

Mae ymgorffori'r sylfaen driphlyg mewn busnes yn ffordd brofedig o wneud hyn.

Yn 2025, gofynnwyd eto i fusnesau cymdeithasol am y flaenoriaeth y maent yn ei rhoi ar liniaru'r argyfwng hinsawdd a gweithio tuag at allyriadau carbon sero net.

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu ymrwymiad cryfach yn gyffredinol, gyda 66% o fusnesau'n disgrifio hyn fel blaenoriaeth uchel neu hanfodol, sef cynnydd o 51% yn 2022.

Yn arbennig, mae cyfran y busnesau sy'n nodi gweithredu ar yr hinsawdd fel blaenoriaeth uchel wedi cynyddu'n sylweddol, o 25% yn 2022 i 43% yn 2025, ac mae'r rhai a'i graddiodd yn flaenoriaeth hanfodol wedi aros yn gymharol gyson ar 23%.

Ceir potensial sylweddol i greu gwerth economaidd a chymdeithasol mewn ffordd gynaliadwy yn yr economi werdd.

Bydd cefnogi mentrau cymdeithasol sydd â'r model sylfaen driphlyg i fanteisio ar y cyfleoedd hyn yn gwneud y mwyaf o'r gwerth economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a gaiff ei greu, gan sicrhau bod busnesau wedi'u gwreiddio yng nghymunedau Cymru, ac adeiladu cyfoeth cymunedol a chreu twf economaidd cynaliadwy.

Astudiaeth Achos



# Câr-Y-Môr

## Sefydlwyd: 2019

## Sector: Yr Amgylchedd


Mae Câr-Y-Môr yn brosiect arloesol sy'n enghraifft o botensial y model Cymdeithas Budd Cymunedol.

Fe'i sefydlwyd yn 2019 fel cymdeithas budd cymunedol, wedi'i lleoli yng Nghlegyr Uchaf, Tyddewi, Sir Benfro, ac mae'n gweithredu Fferm Fôr Atgynhyrchiol, yn tyfu gwymon a physgod cregyn.

Mae dwy fferm dreialu wedi'u lleoli oddi ar yr arfordir ger Tyddewi, ym Mhorthlysgi a Charnarwig.

Dyma'r fferm fasnachol gwymon a physgod cregyn gyntaf yng Nghymru. Mae ganddynt ddau brif nod:

- Gwella'r amgylchedd arfordirol drwy ffermio morol atgynhyrchiol, a;
- Gwella lles y gymuned leol drwy greu swyddi, cyflenwi bwyd môr lleol ffres, ac adfer yr amgylchedd



Maen nhw eisoes yn cael effaith enfawr. Enillodd Câr-y-Môr wobr Menter Gymdeithasol y Flwyddyn yng Ngwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru 2023. Yr hyn a wnaeth argraff fawr ar y beirniaid oedd ymrwymiad y cwmni i gael effaith gadarnhaol ar arfordir Cymru a'r gymuned leol, a'r dull arloesol o redeg busnes sy'n rhoi pobl a chymuned wrth ei wraidd.

Yn ogystal â chreu busnesau arloesol yn yr economi werdd, er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau, mae angen i ni sicrhau bod busnesau ar draws pob sector yn mabwysiadu arferion gwyrdd. Mae'r model sylfaen driphlyg yn golygu mai mentrau cymdeithasol sydd yn y sefyllfa orau i wneud hyn.

Ar yr un pryd â blaenoriaethu cynaliadwyedd economaidd a chyflawni eu cenhadaeth gymdeithasol, mae mentrau cymdeithasol yn arwain y ffordd o ran mabwysiadu ffyrdd gwyrdd o weithio.



# Creu Menter

## Sefydlwyd: 2015

## Sector: Adeiladu

Enillodd Creu Menter Wobr Arloesedd y Flwyddyn gan Fenter Gymdeithasol yng Ngwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru 2023. Mae'n is-gwmni i Cartrefi Conwy, a ddechreuodd fasnachu yn 2015 ac sydd wedi tyfu'n gyflym i fod y contractwr cymdeithasol o ddewis ar gyfer Gogledd Cymru.

Ym mis Tachwedd 2020, cawsant eu henwi'r Cwmni sy'n Tyfu Gyflymaf yng Nghymru. Mae'r tîm hwn yn enghraifft berffaith o'r ffordd y gall menter gymdeithasol gyflawni ei thair uchelgais: sef llwyddiant busnes, cynaliadwyedd amgylcheddol, a helpu pobl.

Maent yn adeiladu cartrefi ecogyfeillgar gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy, ac maent yn arloesol wrth ddod o hyd i ffyrdd newydd o leihau eu hôl troed carbon, er enghraifft, o Gymru y daw 80% o'r pren y maent yn ei ddefnyddio, ac maent yn adeiladu fframiau ar y safle.

Yn ogystal â chenhadaeth amgylcheddol, mae ganddynt genhadaeth gymdeithasol i greu cyfleoedd cyflogaeth amser llawn â chyflog da ar gyfer y gymuned leol y mae'n ei gwasanaethu. Mae Academi Creu Dyfodol y cwmni yn helpu pobl leol i ddod o hyd i gyfleoedd hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth a chael mynediad atynt.

# Addysg

**Mae sgiliau entrepreneuriaeth yn hanfodol ar gyfer datblygu datrysiadau arloesol ar gyfer yr heriau sy'n wynebu Cymru, o ddileu tlodi i drawsnewid i economi werdd a diogelu'r Gymraeg.**

Mae dysgu myfyrwyr sut i adnabod anghenion cymunedol a datblygu datrysiadau cynaliadwy a chydweithredol yn meithrin creadigrwydd, meddwl beirniadol a gwydnwch. Mae'r rhinweddau hyn yn anhepgor ar gyfer grymuso pobl ifanc i gyfrannu'n ystyrlon at economi a chymdeithas Cymru a bod yn gyfranogwyr gweithredol ym marchnad lafur y dyfodol.

Wrth sefydlu mentrau cymdeithasol mewn addysg, gallwn baratoi'r genhedlaeth nesaf i arwain mentrau sy'n mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, anghydraddoldeb economaidd, a chadwraeth ddiwylliannol.

Mae integreiddio modelau mentrau cymdeithasol a chydweithredol o fewn y cwricwlwm yn rhoi cyfle i feithrin sgiliau entrepreneuriaeth sy'n blaenoriaethu lles cymunedol a chynaliadwyedd.

Wrth ehangu mentrau fel prosiect peilot Robert Owen, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi datblygu adnoddau am gwmnïau cydweithredol a busnesau cymdeithasol er mwyn annog ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc, mae ysgolion Cymru'n gallu elwa ar adnoddau a chynnwys pwrpasol sy'n galluogi athrawon i ddefnyddio enghreifftiau gwirioneddol o entrepreneuriaeth gymdeithasol i ysbrydoli myfyrwyr.

Mae mentrau cymdeithasol hefyd yn gwasanaethu fel pont gadarn rhwng addysg ac ymgysylltiad cymunedol. Gall ysgolion a cholegau sy'n cofleidio mentrau cymdeithasol greu perthynas rhwng myfyrwyr â'u cymunedau lleol, gan ddarparu cyfleoedd ymarferol i ddysgu wrth gymryd rhan weithredol mewn prosiectau cymdeithasol.

Mae'r dull hwn yn gwella dealltwriaeth myfyrwyr o'u cymunedau yn ogystal â meithrin ymdeimlad o falchder a chyfrifoldeb – gan gefnogi elfen Cynefin y cwricwlwm sydd â'r nod o gysylltu dysgwyr â'r lle y maent yn perthyn iddo, a'r bobl a'r dirwedd o'u cwmpas.

Gallai Bagloriaeth Cymru ddarparu cyfle delfrydol i ehangu hyn. Ar ben hynny, mae mentrau cymdeithasol yn creu amgylcheddau dysgu cynhwysol sy'n darparu ar gyfer doniau a galluoedd amrywiol, gan wneud addysg yn fwy hygyrch a chyfartal.

Mae'r rhain i gyd yn werthoedd sydd wrth wraidd cwricwlwm newydd Cymru, ac mae gweld y sector mentrau cymdeithasol fel ased yn natblygiad y cwricwlwm hwnnw'n gyfle clir.

# Romodels

## Sefydlwyd: 2022

## Sector: Addysg

Mae Romodels yn credu mewn byd lle mae gan bob plentyn y rhyddid i freuddwydio a'r cyfle i wireddu eu potensial llawn. Maent yn darparu addysg drochi gynnar ar yrfaoedd a setiau sgiliau dynamig y dyfodol.

Eu nod yw ysbrydoli plant oedran cynradd, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig, gan helpu dysgwyr ifanc i ddysgu am bobl mewn gyrfaoedd arloesol.

Maent yn credu, wrth gyflwyno dysgwyr i bobl sy'n mynd i'r afael â heriau byd-eang, ac sy'n gweithio mewn meysydd sy'n canolbwyntio ar y dyfodol fel cynaliadwyedd, technoleg a pheirianneg, y gallwn eu helpu i ddatblygu sgiliau'r dyfodol.

Wrth arddangos Romodels o bob cwr o Gymru sy'n debyg iddyn nhw neu'n dod o'r un math o gefndiroedd, neu sy'n chwalu stereoteipiau, eu nod yw agor byd o bosibiliadau gyrfaoedd ar gyfer y dyfodol.

Maent eisoes yn gweithio gyda 50 o ysgolion ledled Cymru ac eisiau cyrraedd 10,000 o blant eleni. Maent eisiau i fentrau cymdeithasol eraill ymuno â nhw yn y genhadaeth hon:

"Mae Romodels yn ffynnu trwy gydweithio, ac rydym yn galw ar gwmnïau dan arweiniad cymdeithasol ledled Cymru i gyfranogi drwy rannu eu straeon a'u harbenigedd.

Os ydych chi'n fusnes â chenhadaeth, gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i ddod â rhagor o Romodels (modelau rôl) i mewn i ystafelloedd dosbarth a llunio dyfodol mwy disglair at gyfer pob plentyn."

# Y Gymraeg

**Mae datblygu cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol sydd â'r Gymraeg wrth wraidd eu gwaith yn hanfodol ar gyfer creu sylfeini economaidd cadarn mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol ffyniannus.**

Mae'r mentrau hyn yn darparu cyfleoedd gwaith ystyrlon i siaradwyr Cymraeg, gan eu galluogi i aros mewn ardaloedd lle mae mwyafrif y bobl yn siarad Cymraeg, neu ddychwelyd iddynt.

Wrth angori eu gweithrediadau mewn cymunedau lleol, mae cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol yn cyfuno meddylfryd entrepreneuraidd â gwerthoedd sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan sicrhau cynaliadwyedd hirdymor i'r economi ac i'r iaith.

Mae twf y sector mentrau cymdeithasol yng Ngwynedd fel rhan hanfodol o'r economi a bywydau pobl yn dangos y gwerth sylweddol sy'n gallu bod ynghlwm wrth y Gymraeg fel ased economaidd – gan ddod â phobl ynghyd, creu rhwydweithiau o unigolion a busnesau rhagweithiol, a sicrhau bod penderfyniadau wedi'u hangori mewn cymunedau.

Mae prosiect Perthyn wedi dangos effaith drawsnewidiol cyllid cyfnod cynnar o ran grymuso mentrau dan arweiniad y gymuned mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith.

Wrth ehangu'r model hwn, gallwn ddatgloi potensial pellach ledled Cymru, nid yn unig mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg yn gryf ond hefyd mewn ardaloedd lle nad yw'r mwyafrif yn siarad yr iaith.

# Cymraeg

Bydd cefnogi mentrau cymdeithasol newydd yn y cymunedau hyn yn creu cyfleoedd newydd i bobl ddysgu, defnyddio a rhannu'r Gymraeg, gan feithrin ei thwf a normaleiddio ei defnydd bob dydd.

Ar ben hynny, mae mentrau cymdeithasol mewn sefyllfa unigryw i alinio â nodau diwylliannol ac ieithyddol cymunedau Cymru.

Maent yn creu cysylltiad rhwng datblygiad economaidd a chadwraeth ddiwylliannol, gan hyrwyddo dull cynhwysol o ymdrin â dyfodol y Gymraeg.

Bydd ehangu cefnogaeth ar gyfer y mentrau hyn, a mynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer mentrau cymdeithasol newydd, yn annog prosiectau arloesol sy'n cysylltu cynhyrchiant economaidd â'n hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth.




# Menter yr Eagles

## Sefydlwyd: 2023

## Sector: Budd Cymunedol

Mae Menter yr Eagles yn Gymdeithas Budd Cymunedol sy'n datblygu prosiectau dan arweiniad y gymuned i ddiwallu anghenion yr ardal leol yn Llanuwchllyn.

Mae'r gymuned yn teimlo effeithiau'r argyfwng ail gartrefi a thai gwyliau, gan weld niferoedd uchel iawn o ymwelwyr dros yr haf ond gostyngiad enfawr dros y gaeaf. Mae prisiau tai wedi codi cymaint fel eu bod allan o gyrraedd pobl leol, yn enwedig y genhedlaeth iau, ac mae hyn yn bygwth dyfodol yr iaith.

Ffurfiwyd y grŵp i ymateb i werthiant Tafarn yr Eagles, sy'n ased lleol hanfodol. Yn haf 2023, lansiwyd eu cynnig cyfranddaliadau er mwyn codi arian i brynu'r dafarn, a chawsant ymateb cadarnhaol dros ben. Bellach, mae'r grŵp yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau hanfodol i'r gymuned leol, gan gynnwys y dafarn, bwyty, a siop leol.

Maent yn datblygu mentrau pellach – gan gynnwys archwilio tai dan arweiniad y gymuned.



## Hen Ysgol Bodorgan - Malltraeth Ymlaen

## Sefydlwyd: 2006

## Sector: Budd Cymunedol

Mae Malltraeth Ymlaen yn fenter gymdeithasol yn Aberffraw, yn ardal Bodorgan ar Ynys Môn, ac mae'n rhedeg canolfan gymunedol yn hen adeilad Ysgol Bodorgan.

Mae ystadegau'n mynegi'r her i'r Gymraeg yn yr ardal hon – dangosodd cyfrifiad 2021 fod 55% o bobl yn yr ardal yn siarad Cymraeg, sef gostyngiad o 12.7% ers 2011.

Un rheswm arwyddocaol dros y gostyngiad hwn yw'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n symud i'r ardal, ac yn prynu ail gartrefi, yn enwedig. Derbyniodd y grŵp hwn gefnogaeth gan Perthyn er mwyn cynnig cyrsiau Cymraeg achrededig, digwyddiadau cymunedol yn Gymraeg, a deunyddiau wedi'u cyfieithu'n llawn.

Mae'r adeilad hwn bellach yn ased cymunedol llwyddiannus, sy'n dod â phobl ynghyd o bob cymuned ac â phob gallu yn y Gymraeg i ymgysylltu a ffynnu trwy gyfrwng y Gymraeg.

# Diwylliant

**Wrth hyrwyddo modelau mentrau sy'n eiddo i'r gymuned a mentrau cymdeithasol yn y sectorau celfyddydau a diwylliannol, gallwn fynd i'r afael â heriau dybryd fel achub asedau cymunedol hanfodol, cadwraeth lleoliadau hanfodol, a chreu busnesau amrywiol a chynhwysol.**

Mae cyfran y busnesau cymdeithasol sy'n hyrwyddo diwylliant neu dreftadaeth Cymru neu'r Gymraeg bron wedi dyblu dros gyfnod o bum mlynedd, gan gynyddu o 24% yn 2020 i 47% yn 2025.

Yn yr un modd, mae canran y busnesau sy'n darparu mynediad at wasanaethau wedi tyfu'n sylweddol, o 27% yn 2020 i 50% yn 2025.

Mae mentrau cymdeithasol sy'n eiddo i'r gymuned yn cynnig datrysiad cynaliadwy ar gyfer gwarchod mannau celfyddydol a diwylliannol a allai gael eu colli fel arall.

Wrth sefydlu'r mannau hyn yn nwylo pobl leol, maent yn parhau i fod yn ganolfannau bywiog ar gyfer creadigrwydd ac ymgysylltu.




# Galeri

## Sefydlwyd: 1992

## Sector:
**Celfyddydau Perfformio**

Mae Galeri yn fenter gymdeithasol lewyrchus sy'n chwarae rhan ganolog ym mywyd diwylliannol Caernarfon.

Mae'n lleoliad celfyddydau amlbwrpas sy'n cynnwys theatr, sinema, orielau, a mannau gweithio creadigol. Mae Galeri yn cefnogi artistiaid lleol, yn cynnal digwyddiadau amrywiol, ac yn arddangos iaith a diwylliant Cymru.

Caiff elw ei ailfuddsoddi mewn prosiectau cymunedol a chynnal mynediad fforddiadwy i'r celfyddydau.

Mae'n enghraifft o'r ffordd y gall mentrau cymdeithasol gynnal ecosystemau diwylliannol bywiog a chyfrannu at adfywio lleol a lles cymunedol trwy greadigrwydd a chyfranogiad.

# Diwylliant

Mae mynediad cynhwysol at ddiwylliant a'r celfyddydau yn hanfodol ar gyfer meithrin cymdeithas sy'n gwerthfawrogi creadigrwydd.

Mae mentrau cymdeithasol mewn sefyllfa unigryw i hyrwyddo'r cynhwysiant hwn drwy chwalu rhwystrau rhag cyfranogiad.

Boed drwy raglenni allgymorth neu greu cyfleoedd fforddiadwy, mae'r sefydliadau hyn yn sicrhau bod diwylliant yn parhau i fod yn hygyrch i bawb, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau.

Yn ogystal, ceir heriau sylweddol yn y sector celfyddydau i weithwyr hunangyflogedig a llawrydd, sy'n aml yn gorfod ymdopi ag amodau gwaith ansicr a rhwydweithiau cymorth cyfyngedig.

Mae atebion cydweithredol, fel cwmnïau cydweithredol gweithwyr llawrydd neu ganolfannau adnoddau a rennir, yn cynnig ffordd ymlaen o ran darparu gwasanaethau a rennir, pŵer bargeinio ar y cyd, a chydgefnogaeth.

Wrth alluogi artistiaid a phobl greadigol i gydrannu adnoddau a chydweithio, mae'r modelau hyn yn creu gyrfaoedd mwy sefydlog a gwydn yn y celfyddydau.

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru geisio cyfleoedd i ddatblygu ac ehangu'r mentrau cydweithredol hyn, gan sicrhau bod gweithlu creadigol Cymru mewn sefyllfa i lwyddo.




# Beacons Cymru

## Sefydlwyd: 2010

## Sector:
**Celfyddydau Perfformio**

Yng Ngwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru 2024, enwebwyd Beacons Cymru ar gyfer Gwobr Un i'w Wylio.

Mae'r sefydliad, sydd wedi'i leoli yng Nghymoedd De Cymru, yn nodi ac yn meithrin doniau cerddorol ifanc ledled Cymru, ac yn creu cyfleoedd i bobl ifanc yn y diwydiant cerddoriaeth, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

Dywedodd Elan Evans, Rheolwr Prosiect yn Beacons:

"Rydym bob amser yn ceisio rhoi'r sgiliau i bobl ifanc ddysgu sut i fod yn dechnegydd sain, sut i fod yn artist hunangynhaliol, sut i fod yn rheolwr prosiect... Yna, maen nhw'n defnyddio'r sgiliau hynny i drefnu digwyddiadau, neu'n dechrau prosiectau newydd yn eu cymunedau. Dyna sy'n bwysig i'w weld."

Mae mentrau cymdeithasol yn arwain y ffordd ac yn gweithredu'n rhagweithiol i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth systemig cymunedau amrywiol yn y diwydiannau creadigol.

# Tân Cerdd

## Sefydlwyd: 2020

## Sector: Celfyddydau Perfformio

Mae Tân Cerdd yn fenter gymdeithasol dan arweiniad pobl Ddu a sefydlwyd yn 2020 er mwyn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth artistiaid Du yng Nghymru. Fe'i cyd-sefydlwyd gan y gantores Dionne Bennett, a daeth y fenter i'r amlwg mewn ymateb i fudiad Mae Bywydau Du o Bwys, gyda'r nod o chwyddo lleisiau pobl Ddu a dad-drefedigaethu byd cerddoriaeth a'r celfyddydau yng Nghymru.

Mae Tân Cerdd yn gweithredu fel Cwmni Buddiant Cymunedol, gan greu llwyfannau i artistiaid Du, Asiaidd, aml-ethnig, a dosbarth gweithiol berfformio, cydweithio, a ffynnu.

Prif weithgaredd y fenter yw'r Neo-Soul Jam misol yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter yng Nghaerdydd, sy'n darparu man agored a chefnogol i gerddorion arddangos eu doniau.

Maent yn arwain digwyddiadau amlwg yn ystod Mis Hanes Pobl Ddu, fel Windrush @ 75, ac yn cyd-gynhyrchu arddangosfeydd artistiaid a gweithdai datblygu gyda sefydliadau fel Gŵyl Jazz Aberhonddu a Chanolfan Mileniwm Cymru.

Drwy fentora, perfformiadau, a digwyddiadau diwylliannol, mae Tân Cerdd yn grymuso artistiaid ac yn ail-lunio tirwedd ddiwylliannol Cymru. Mae Tân Cerdd yn enghraifft bwerus o'r ffordd y gall mentrau cymdeithasol ysgogi cynhwysiant diwylliannol a newid systemig.

Mae cefnogi'r sector mentrau cymdeithasol o fewn y celfyddydau a diwylliant yn gam hanfodol tuag at adeiladu economi greadigol fywiog, gynaliadwy a chynhwysol. Wrth ymrwymo i'r agenda hon, gall pleidiau gwleidyddol Cymru rymuso cymunedau, gwarchod treftadaeth ddiwylliannol, a sicrhau bod y celfyddydau'n parhau i ffynnu fel conglfaen hunaniaeth a chymdeithas Cymru.

# Cymunedau a Chynhwysiant

**Mae mentrau cymdeithasol yn allweddol ar gyfer creu cymunedau unedig a chynhwysol.**

Mae darparu gwasanaethau a gweithgareddau a gwella eu cymuned yn rhan hanfodol o genhadaeth mentrau cymdeithasol ledled Cymru, ac oherwydd bod mentrau cymdeithasol yn cael eu rhedeg gan bobl sydd wedi'u gwreiddio yn yr ardal leol, maent yn gwybod yn union beth fydd yn gweithio yn eu cymuned i ddod â phobl ynghyd a chreu cydlyniant cymunedol.

Mae mentrau cymdeithasol yn arbenigwyr ar ddod o hyd i ffyrdd arloesol, ariannol gynaliadwy o ddarparu gwasanaethau i'r sawl sydd eu hangen.




# Get The Boys a Lift

## Sefydlwyd: 2019

## Sector: Iechyd Meddwl

Mae Get The Boys A Lift, sydd wedi'i leoli yn Hwlffordd, yn sefydliad dynamig â ffocws ar y gymuned, a lansiwyd gan grŵp o ffrindiau. Mae'n darparu cymorth iechyd meddwl am ddim i bobl yn Sir Benfro ac yn hyrwyddo trafodaethau agored am lesiant meddyliol.

Mae'r tîm yn rhedeg siop ddillad a choffi yn Hwlffordd o'r enw 'Our Place', sy'n cynnig profiad caffi unigryw lle gall ymwelwyr sgwrsio â chwnselwyr a gwneud ffrindiau newydd. Mae'r prosiect wedi mynd o nerth i nerth ers 2016, ac mae bellach yn cynnig cymysgedd o wasanaethau cwnsela wyneb i wyneb ac ar-lein i unrhyw un dros 17 oed.

Wrth wraidd gwaith GTBAL y mae ffocws ar weithgareddau cymunedol sy'n dod â phobl ynghyd, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. Gan gydnabod yr heriau sy'n wynebu grwpiau ymylol, mae'r sefydliad yn darparu cymorth targedig mewn meysydd allweddol fel iechyd a lles, paratoi ar gyfer cyflogaeth, ac integreiddio cymdeithasol.

Caiff cymunedau ymylol eu heffeithio'n fwy andwyol gan anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd sy'n bodoli. Rydym yn gweld llawer o enghreifftiau o entrepreneuriaid cymdeithasol sydd â phrofiad bywyd yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â materion sy'n effeithio arnynt, boed hyn oherwydd gwahaniaethu, anabledd, tlodi, a/neu drawma yn y gorffennol.




# Obehi's

## Sefydlwyd: 2019

## Sector: Manwerthu

Mae Omo wedi sefydlu Obehi's, sef y siop gymunedol Affricanaidd gyntaf yn Wrecsam, gan gynnig cynnyrch Affricanaidd ffres traddodiadol i helpu'r gymuned Affricanaidd sydd wedi symud i'r ardal yn ddiweddar i deimlo'n gartrefol.

Cyrhaeddodd Omo yn Wrecsam gyda'i theulu yn 2011, gan ddianc rhag cam-drin domestig gyda chefnogaeth Cymorth i Fenywod.

Roedd Omo yn hiraethu am ei chartref ar y dechrau, ac yn teimlo y byddai cael bwyd a diwylliant Affricanaidd traddodiadol wedi dod â chysur iddi, ond nid oedd unrhyw gymorth ar gael yn yr ardal leol.

Roedd yn benderfynol o atal y gymuned Affricanaidd gynyddol rhag teimlo'r un ffordd, felly penderfynodd Omo wneud gwahaniaeth. Yn 2019, cafodd Omo gyllid i ddechrau dosbarthu bwyd Affricanaidd i deuluoedd na allent fforddio teithio i siopau oherwydd nad oedd gan y rhan fwyaf o'r gymuned Affricanaidd fynediad at arian cyhoeddus.

Roedd y siop agosaf dros awr i ffwrdd yn Lerpwl, ond bu Omo'n teithio cyn belled â Llundain, hefyd.

Gyda'r cynnydd cyflym yn nifer y teuluoedd a oedd yn elwa, sylweddolodd Omo fod arni angen ateb mwy cynaliadwy. Agorodd Omo farchnad gymunedol Affricanaidd yn Wrecsam yn 2023, gan gynnig bwyd a llysiau ffres a fewnforiwyd yn wythnosol o Affrica. Mae Omo hyd yn oed wedi cyflwyno cynhyrchion iechyd i'r siop oherwydd galw poblogaidd

Mae'r gymuned Affricanaidd yn Wrecsam wedi magu ymdeimlad o berthyn nad oedd yn bodoli cyn i'r siop agor. Crëwyd nifer o swyddi hefyd, ac mae pawb yn y gymuned yn gallu archwilio'r siop a chael mynediad at ddiwylliant Affricanaidd.

Bydd cymysgedd amrywiol o'r mentrau cymdeithasol hyn yn cynnig cyfleoedd sy'n gwella lles, yn magu balchder yn yr ardal leol ac yn meithrin perthnasoedd ymddiriedus yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cymunedau clos sy'n gysylltiedig erioed â Chymru'n parhau i'r genhedlaeth nesaf..

# Sut i wneud Cymru'n genedl o fentrau cymdeithasol

**Er mwyn cyflawni ein nod o wneud Cymru'r lle gorau yn y byd i gychwyn a thyfu menter gymdeithasol, ac er mwyn i fentrau cymdeithasol fod y model busnes o ddewis yng Nghymru, mae angen i ni fod yn radical.**

Mae angen i fentrau cymdeithasol fod wrth wraidd polisi Llywodraeth Cymru.

Mae angen i'r sector presennol a'r miloedd o bobl angerddol ac entrepreneuraidd sy'n gweithio ynddo gael eu hystyried yn asedau hanfodol wrth i ni gydweithio i adeiladu'r Gymru a garem ei gweld.

Mae angen cyfleoedd newydd arnom i fynd ati'n rhagweithiol i ddarganfod a gweithredu modelau busnes sylfaen driphlyg sy'n cael eu harwain gan genhadaeth.

Fel y Grŵp Rhanddeiliaid Mentrau Cymdeithasol, mae ein profiad o weithio gyda'r sector yn feunyddiol wedi dangos i ni y bydd yr argymhellion polisi canlynol yn hanfodol i gyflawni'r weledigaeth honno.

# Ein Hargymhellion

**Ehangu a chryfhau cymorth busnes arbenigol wedi'i deilwra ar gyfer anghenion mentrau cymdeithasol**

**Buddsoddi mewn datblygu marchnad yn rhagweithiol ar gyfer y sector mentrau cymdeithasol.**

**Parhau i fuddsoddi mewn ffrydiau cyllido penodol er mwyn cefnogi mentrau cymdeithasol i archwilio, cychwyn a thyfu.**

**Sefydlu dull adeiladu cyfoeth cymunedol mewn arferion caffael a chomisiynu er mwyn creu'r amodau ar gyfer twf cynaliadwy a chynhwysol.**

**Cyflwyno Deddf Perchnogaeth a Grymuso Cymunedol sy'n rhoi cyfle i fentrau cymdeithasol warchod asedau cymunedol**

**Meithrin ysbryd newydd o entrepreneuriaeth gymdeithasol yn y genhedlaeth nesaf wrth ymgorffori menter gymdeithasol, economeg llesiant, ac astudiaeth o economi Cymru yn y cwricwlwm ac ym mhrifysgolion a cholegau Cymru.**

# Expand and strengthen specialist business support tailored to the needs of social enterprise

Mae cymorth busnes arbenigol ar gyfer y mentrau hyn wedi'i adnabod gan y busnesau eu hunain yn rhywbeth hanfodol i'w twf.

Mae'r cymorth a ddarperir trwy Busnes Cymdeithasol Cymru mewn cydweithrediad â darparwyr eraill wedi helpu'r busnesau hyn i dyfu, a chreu cannoedd o swyddi o ansawdd da, a diogelu llawer o swyddi eraill.

Mae gwerthusiad annibynnol o Busnes Cymdeithasol Cymru wedi amlygu "angen parhaus am gefnogaeth arbenigol i'r sector busnes cymdeithasol, gan gydnabod yr amgylcheddau aml-randdeiliaid, a threfniadau cyfreithiol, cyfansoddiadol ac ariannol penodol sydd â goblygiadau eang i weithrediad llwyddiannus busnesau cymdeithasol".

Yn adroddiad mapio 2025 Busnes Cymdeithasol Cymru, nododd 67% o fusnesau cymdeithasol y byddent yn gweld cymorth busnes pwrpasol yn ddefnyddiol, i raddau helaeth. Dywedodd 24% arall y byddent yn gweld hyn yn ddefnyddiol, i ryw raddau, sy'n awgrymu bod bron pob ymatebydd yn gweld rhywfaint o werth mewn cymorth sydd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer y sector

Y gofyniad allweddol ar gyfer cymorth arbenigol i fentrau cymdeithasol yw bod gan gynghorwyr ddealltwriaeth arbenigol o nodweddion mentrau cymdeithasol – eu bod â nifer o randdeiliaid, ac mae ganddynt sylfaen driphlyg, strwythurau cyfreithiol gwahanol, ac opsiynau amgen o ran cyllido.



Mae hyn yn golygu cefnogaeth ar gyfer entrepreneuriaid newydd sydd â syniad gwreiddiol, yn ogystal â chwmnïau sefydledig sydd angen cymorth yn ystod cyfnodau heriol, a busnesau sy'n ceisio arallgyfeirio a thyfu.

"Mae'r gefnogaeth gan Busnes Cymdeithasol Cymru wedi bod yn amhrisiadwy wrth sefydlu ffocws ein busnes, o'u cefnogaeth ymarferol i'w sgiliau cyfeirio mewn meysydd arbenigol.

Mae eu hygyrchedd wedi bod yn ddi-ail, gan ein cynorthwyo, a'n hysgogi'n aml yn ein datblygiad. Credaf fod eu cefnogaeth yn fuddiol nid yn unig i fusnesau newydd ond hefyd i fusnesau sefydledig sy'n wynebu heriau, gan eu cynorthwyo i weithredu datrysiadau." - Elite Paper Solutions

# Buddsoddi mewn datblygu marchnad yn rhagweithiol ar gyfer y sector mentrau cymdeithasol.

Yn ogystal â darparu cymorth busnes arbenigol o ansawdd uchel i entrepreneuriaid cymdeithasol a busnesau cymdeithasol, mae angen i ni fod yn rhagweithiol o ran nodi cyfleoedd marchnad ar gyfer modelau busnes cymdeithasol, a chynnull rhanddeiliaid (yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector) a all wneud i bethau ddigwydd i helpu i ddiwallu'r galw economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

Mae cyfleoedd ar gyfer busnesau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar dwf ac sy'n economaidd gynaliadwy yn bodoli ar draws sectorau, cymunedau a chadwyni cyflenwi gwahanol.

Mae nodi'r cyfleoedd hyn yn gofyn am gapasiti datblygu arbenigol sydd wedi'i wreiddio mewn cymunedau a sectorau, boed yr economi werdd, cynhyrchu bwyd, gweithgynhyrchu, adeiladu, cyllid, a llawer mwy.

Er mwyn gwneud mentrau cymdeithasol yn fodel busnes o ddewis yng Nghymru, mae angen i ni fod yn rhagweithiol o ran nodi a manteisio ar y cyfleoedd hyn.

Yn 2022, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad 'Mentrau Cymdeithasol – Cyfle Wedi'i Golli', a oedd yn pwysleisio bod angen i fentrau cymdeithasol gael eu defnyddio'n well gan awdurdodau lleol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar gyfer y bobl a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Mae buddsoddi yn y gallu i wneud hyn yn allweddol.

Bydd buddsoddi fel hyn gan Lywodraeth Cymru drwy ganolfan ragweithiol dan arweiniad arbenigwyr ar gyfer datblygu marchnad yn allweddol er mwyn gwneud y mwyaf o botensial y model busnes cymdeithasol a'i effaith ar bobl, y blaned ac elw o fewn cymunedau.

# Parhau i fuddsoddi mewn ffrydiau cyllido penodol er mwyn cefnogi mentrau cymdeithasol i archwilio, cychwyn a thyfu.

Mae mentrau cymdeithasol yn dibynnu ar fatrics cyllido sy'n cynnwys cynhyrchu refeniw, grantiau a benthyciadau, ac nid yw anghenion ariannol y sector yn cael eu diwallu gan fanciau a benthycwyr masnachol.

Felly, rydym yn galw am barhau ac arallgyfeirio cyllid i fuddsoddwyr cymdeithasol i'w galluogi i barhau i ddiwallu anghenion ariannol y sector yng Nghymru.

Fel yr adroddwyd yn 2022, mynediad at gyllid grant yw'r rhwystr rhag twf a nodir amlaf ymhlith busnesau yn y sector, gan effeithio ar dros hanner yr ymatebwyr.

Mae hyn yn awgrymu bod cystadleuaeth am gyllid yn parhau i fod yn sylweddol, ac mae llawer o fusnesau'n parhau i weithredu â chapasiti cyfyngedig i gynllunio ar gyfer twf ochr yn ochr â chyflawni.

Mae'r sector angen cymorth ariannol mwy hyblyg a hygyrch, o gyllid buddsoddi cychwynnol cynnar, i dwf ac ehangu, gan dargedu effaith yn hytrach nag allbynnau.

Dylid rhoi ystyriaeth bellach hefyd i ddefnyddio cyfalaf tymor estynedig, yn ogystal ag anghenion penodol y sector y gellir eu diwallu; gan sicrhau bod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn manteisio ar fuddsoddiad.

# Sefydlu dull adeiladu cyfoeth cymunedol mewn arferion caffael a chomisiynu er mwyn creu'r amodau ar gyfer twf cynaliadwy a chynhwysol.

Mae Adeiladu Cyfoeth Cymunedol yn gysyniad datblygu economaidd profedig a fydd yn rhoi i gymunedau Cymru'r llwybr gorau at ffyniant cynaliadwy a chynhwysol.

Mae'n golygu tyfu economïau lleol wrth gadw arian, swyddi a pherchnogaeth wedi'u gwreiddio mewn cymunedau, a defnyddio asedau a gwariant cyhoeddus i gefnogi gwaith teg, perchnogaeth leol a democrataidd, a'r model sylfaen driphlyg.

Yn rhan o'i ymrwymiad i adeiladu cyfoeth cymunedol, dylai Llywodraeth nesaf Cymru osod targedau uchelgeisiol ond cyraeddadwy ar gyfer canran y caffael cyhoeddus sy'n mynd i fentrau cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn mynd ati'n weithredol i feithrin cadwyni cyflenwi ymhlith mentrau cymdeithasol, a'u bod yn gweithio gyda mentrau cymdeithasol lleol er mwyn sicrhau bod prosesau comisiynu yn hygyrch.

Bellach, nid yw'n ddigon dweud bod mentrau cymdeithasol yn cael eu gwerthfawrogi, ond gan barhau'n ymatebol i gadwyn gyflenwi sydd heb ei datblygu'n ddigonol.

Mae Cymru wedi cymryd llawer o gamau cadarnhaol o ran cydnabod gwerth cymdeithasol a'i ymgorffori mewn prosesau caffael.

Mae cefnogi'r gallu i ddiwygio prosesau caffael er mwyn datblygu dealltwriaeth o werth cymdeithasol ac adeiladu cyfoeth cymunedol yn parhau i fod yn allweddol.

Mae'n glir bod prosesau comisiynu cymhleth yn rhwystr sylweddol sy'n atal mentrau cymdeithasol bach ond effeithiol rhag gallu darparu eu gwasanaethau mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'n hanfodol diwygio'r prosesau hyn er mwyn cefnogi mentrau cymdeithasol i wneud eu gwaith.

# Cyflwyno Deddf Perchnogaeth a Grymuso Cymunedol sy'n rhoi cyfle i fentrau cymdeithasol warchod asedau cymunedol

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Deddf Perchnogaeth Gymunedol er mwyn grymuso mentrau cymdeithasol i ymgymryd â thir ac asedau o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn adnoddau cymunedol gwerthfawr.

Mae llawer o leoliadau hanfodol – fel tafarndai, siopau, lleoliadau diwylliannol, a mannau gwyrdd – yn wynebu cau neu golli perchnogaeth leol, ac mae hyn yn bygwth gwasanaethau a hunaniaeth leol.

Wrth roi cynnig cyntaf a chefnogaeth ariannol i fentrau dan arweiniad y gymuned a mentrau sy'n eiddo i'r gymuned, byddai'r Ddeddf yn diogelu asedau er budd cymunedol hirdymor, gan feithrin gwydnwch economaidd a ffyniant lleol.

Dylid ailgydbwyso economïau lleol fel bod gan gymunedau'r cyfle i fod yn berchen ar dir ac asedau er mwyn creu mentrau cymdeithasol newydd sy'n gallu adeiladu cyfoeth cymunedol a gwella lles pobl leol.

Yn yr Alban, mae Hawl y Gymuned i Brynu wedi dangos llwyddiant, ac mae Lloegr yn bwrw ymlaen; rhaid i Gymru weithredu ar unwaith i warchod seilwaith cymdeithasol a chreu economi decach a mwy cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ni allwn fynd i'r perygl o syrthio ymhellach ar ei hôl hi.

Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn gwasanaethau cymorth arbenigol deuol, gan alluogi gwerthwyr / trosglwyddwyr yn ogystal â phrynwyr / trosglwyddeion i fod wedi'u paratoi'n fwy trylwyr ac yn well eu gallu i reoli'r prosesau sy'n ymwneud â throsglwyddo neu gaffael asedau cymunedol.

# Meithrin ysbryd newydd o entrepreneuriaeth gymdeithasol yn y genhedlaeth nesaf wrth ymgorffori menter gymdeithasol, economeg llesiant, ac astudiaeth o economi Cymru yn y cwricwlwm ac ym mhrifysgolion a cholegau Cymru.

Bydd rhoi'r sgiliau a'r meddylfryd i bobl ifanc greu busnesau sy'n blaenoriaethu effaith gymdeithasol ac amgylcheddol yn sbarduno economi decach a mwy gwydn.

Bydd addysgu'r egwyddorion hyn mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion yn ysbrydoli arweinwyr y dyfodol i greu mentrau sy'n mynd i'r afael â heriau lleol ac yn cryfhau cymunedau.

Gallwn gadw rhagor o bobl ifanc yn ein cymunedau lleol wrth eu grymuso i ddatblygu'r datrysiadau i'r heriau a wynebwn.

# Gweithio gyda ni

Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Mentrau Cymdeithasol wedi ymrwymo i Drawsnewid Cymru drwy Fentrau Cymdeithasol a chyflawni ein Gweledigaeth a'n Cynllun Gweithredu Deng Mlynedd.

Rydym yn gweithio gyda'r sector mentrau cymdeithasol yn feunyddiol ac wedi ymrwymo i ymgorffori llais y sector yn ein gwaith a chefnogi sector mentrau cymdeithasol llwyddiannus ac effeithiol yng Nghymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech weithio gyda ni i drawsnewid Cymru drwy fentrau cymdeithasol, cysylltwch â'n Swyddog Polisi ac Ymgysylltu, Daniel Roberts, drwy dan.roberts@cwmpas.coop



cwmpas UnLtd CYD Cymru DTA Wales socialfirmswales enterprise, employment, empowerment WcVA CGGC